**LLYWODRAETH CYMRU**

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020**

**Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis)* (Ardal a Ddarnodir 10)**

Mae arolygydd iechyd planhigion, wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau"), wedi nodi presenoldeb *Phytophthora pluvialis* ar safleoedd yn siroedd Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys a Cheredigion.

Wrth arfer y pwerau a roddir gan Reoliad 17(2) o'r Rheoliadau, rwy'n cyflwyno'r hysbysiad canlynol:

**Dyfynnu**

1. Gellir cyfeirio at yr hysbysiad hwn fel yr Hysbysiad Iechyd Planhigion (***Phytophthora pluvialis 10)*** (Cymru), a

2. Gan ddechrau ar 24 Ionawr 2023, mae'n dirymu ac yn disodli'r Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 6) a wnaed ar 12 Ebrill 2022.

**Ardal a ddarnodir**

3. Yn unol â rheoliad 17(2)(a) o'r Rheoliadau, mae'r ardal yn siroedd Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys a Cheredigion o fewn y ffin a ddisgrifir yn Atodiad ac a ddangosir ar y map yn Atodiad 2 ar wefan Llywodraeth Cymru, wedi cael ei darnodi

**Gwahardd symud planhigion a allai gael yr haint**

4. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) o'r Rheoliadau, ni chaiff unrhyw unigolyn symud unrhyw blanhigion a allai gael yr haint o'r ardal a ddarnodir wedi'i nodi yn yr hysbysiad hwn, neu oddi fewn iddi, heb awdurdod ysgrifenedig gan Arolygydd Iechyd Planhigion.

**Blanhigion perthnasol a allai gael yr haint**

5. At ddibenion paragraff 4 uchod, mae planhigion a allai gael yr haint yn golygu unrhyw blanhigion ar gyfer plannu o'r genws ***Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpu*****s** sydd wedi dod o'r ardal a ddarnodir neu sydd yn yr ardal honno.

**Dechrau'r gwaharddiad**

6. Mae'r gwaharddiad a nodir yn yr hysbysiad hwn yn berthnasol ar ac ar ôl **24 Ionawr 2023** nes y dywedir fel arall.

Llofnod



Bill MacDonald, Prif Swyddog Iechyd Planhigion Cymru

Llywodraeth Cymru, **17 Ionawr 2023**

**ATODIAD 1**

## Disgrifiad o faint yr ardal a ddarnodir

Mae’r ffin yn dechrau yn SH776167, ac yn dilyn llwybr yr A470 trwy Ddolgellau i’r A496 yn SH715194.

Mae’r ffin yn ymestyn tua’r gorllewin ar hyd yr A496 am 29.1km trwy Bontddu, y Bermo a Llanbedr hyd at SH578304. O SH578304, mae’r ffin yn ymuno â’r B4573 ac yn ei dilyn am 6.1km, trwy Harlech, cyn ailymuno â’r A496 yn SH607349.

Mae’r ffin yn ymestyn tua’r gogledd-ddwyrain am 3.2km hyd at SH621375. O SH621375, mae’r ffin yn dilyn Ffordd Pont Briwet tua’r gogledd-orllewin am 2.1km hyd at y man lle mae’n ymuno â’r A487 yn SH610388. Mae’n parhau ar hyd yr A487 am 29.1km trwy Dremadog, Bryncir a Phen-y-groes hyd at SH472577, lle mae’n ymuno â ffordd osgoi Caernarfon. O SH472577, mae’r ffin yn parhau ar hyd llwybr y ffordd osgoi am 10km hyd at SH505657, lle mae’n ailymuno â’r A487. Mae’r ffin yn dilyn yr A487 am 6.6km arall hyd at y gylchfan yn SH548699 lle mae’r A487 yn ymuno â’r A55 (Gwibffordd Gogledd Cymru) wrth Gyffordd 9.

Ar ôl dilyn llwybr yr A55 tua’r dwyrain am 29.3km, trwy Dwnnel Conwy, mae’r ffin yn gadael yr A55 wrth Gyffordd 19 (SH805774). O’r gylchfan, mae’r ffin yn ymestyn tua’r gorllewin ac yn parhau tua’r de ar hyd yr A470 (Ffordd Llanrwst) am 17.5km ger afon Conwy hyd at SH798616 yng nghanol tref Llanrwst. Yn SH798616, mae’r ffin yn gadael yr A470 ac yn ymestyn tua’r dwyrain, gan ddilyn llwybr yr A548 Ffordd Abergele am 11.6km hyd at y gyffordd â’r B5382 yn SH874674.

O SH874674, mae’r ffin yn parhau tua’r dwyrain am 6.6km hyd at SH930658, sef cyffordd T y B5382 â’r A544. O SH930658, mae’r ffin yn parhau am 7.1km tua’r dwyrain ar hyd yr A544 hyd at Eglwys sant Thomas yn SH976630. Yn SH976630, mae’r A544 yn ymuno â’r A543 ac mae’r ffin yn parhau tua’r dwyrain, trwy dref Dinbych, am 10.6km hyd at SJ067661.

O SJ067661, mae’r ffin yn dilyn llwybr yr A525 tua’r de, i gyfeiriad Rhuthun, am 10.5km hyd at SJ120581. Yn SJ120581, mae’r ffin yn gadael yr A525 ac yn ymuno â’r A494, gan redeg tua’r de am 18.8km. O SJ063436, mae’r ffin yn gadael yr A494 wrth y groesffordd ac yn ymuno â’r A5 gan ymestyn tua’r gorllewin am 2.3km. Yn SJ040435, mae’r ffin yn gadael yr A5 gan ailymuno â llwybr yr A494 a pharhau tua’r de-orllewin i gyfeiriad y Bala am 14.2km hyd at SH928361.

Yn SH928361, mae’r ffin yn ymestyn tua’r de-ddwyrain ar hyd y B4391 am 33.5km gan groesi Llyn Tegid, a pharhau trwy Langynog a Phen-y-bont-fawr cyn ymuno â’r A490 yn SJ134198. Mae’r A490 yn parhau tua’r de-ddwyrain, trwy Lanfyllin a Bwlchycibau, am 7.4km hyd at y gyffordd â’r A495 yn SJ192168.

Gan ddilyn llwybr yr A495 tua’r de-orllewin am 14.8km, mae’r ffin yn ymestyn hyd at gyffordd â’r A458, yn SJ084078. O’r man hwn, mae’r ffin yn parhau ar hyd yr A458 tua’r gorllewin am 27.5km hyd at ei chyffordd â’r A470 yn SH862125.

O’r gylchfan, mae’r ffin yn ymestyn tua’r de ar hyd yr A470 am 9.7km. Mae cylchfan yn SH821044, ac o’r man hwnnw mae’r ffin yn parhau ar hyd yr A470 tua’r de-

ddwyrain am 41km arall, trwy Lanbrynmair. Yn SO035913, mae’r ffin yn parhau ar hyd llwybr yr A470 tua’r de-orllewin, trwy Lanidloes i gyfeiriad Llangurig, hyd at SN912796.

O’r gylchfan, mae’r ffin yn dilyn yr A44 tua’r gorllewin, trwy Bant-mawr, Ponterwyd a Goginan, hyd at SN632811. O’r gylchfan, mae’r ffin yn dilyn llwybr yr A4159 tua’r gogledd am 3.4km, gan ymuno â’r A487 yn SN621842. Mae’r ffin yn dilyn yr A487 tua’r gogledd i gyfeiriad Dolgellau, trwy Dal-y-bont, Machynlleth ac ar draws bont afon Dyfi. Mae’r ffin yn parhau ar hyd yr A487 am 43.9km, heibio Esgairgeiliog, Ceinws, Corris, Corris Uchaf a Minffordd, hyd at gyffordd yr A487 â’r A470 yn SH766167.